# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**Pwyllgor Eiddo a Datblygu**

**19.00 Nos Fawrth Gorffennaf 29ain 2025**

**<u>COFNODION</u>**

**Presennol: Cynghorwyr:** Gwilym Jones (Cadeirydd), Karena Owens, Carol Hayes, Jeremy Davies, Glenda Murray, Alwyn Gruffydd, Edward Naish.
Elfyn Lewis (Clerc)

**Ymddiheuriadau: Cynghorwyr:** Dr. Melfyn Edwards, Llywelyn Rhys.

**Absennol: Cynghorwyr:** Michael Roberts, Trevor Jones.

1. **Cae Pawb:**
   Cafwyd Diwrnod Agored llwyddiannus yn y rhandiroedd ar Orffennaf 26ain. Daeth llawer o bobl draw i weld y gerddi ac i brynu cynnyrch oddi wrth y garddwyr.
   Casglwyd dros £500 yn ystod y dydd i'w rannu rhwng Tim Achub Aberglaslyn a'r Banc Bwyd lleol.
   Mae deg o bobl ar y rhestr aros yn disgwyl am gardd yng Nghae Pawb.
   Mynegwyd pryder am y Japanese Knotweed a'r Jac y neidiwr (Himalayan Balsam) sydd ar y safle. Adroddodd y Clerc bod Pwyllgor Cae Pawb yn ymwybodol o'r broblem ac yn ceisio ei ddatrys drwy strimio y planhigion cyn iddynt hadu.
   Bydd archwiliad nesaf o Gae Pawb gan Cyngor Tref Porthmadog yn ystod Mis Tachwedd.

2. **Llwybrau:**
   Trafodwyd y gost o dorri gwair ar y llwybrau ac os oedd angen torri gymaint ar y tyfiant yn enwedig o ystyried bod blodau gwyllt naturiol yn elfen bwysig o'r tirlun.
   Gofynwyd i'r Clerc i ddarganfod beth fyddai y gost o dorri gwair ar y llwybrau blwyddyn nesa ac i ofyn i Gyngor Gwynedd ystyried peidio a torri blodau gwyllt pan maent dal yn blodeuo ac yn creu hadau.

3. **Cae Bodawen:**
   Cafwyd cyfarfod gyda cynrhychiolwyr fishergerman yn ystod Mis Gorffennaf er mwyn iddynt ddiweddaru y Cyngor Tref gyda'r datblygiadau diweddaraf gyda Cae Chwarae Bodawen. Roedd yn gyfle i'r Clerc i ddod yn gyfarwydd gyda'r safle a'r materion dan sylw. Ni fydd y gwaith yn dechrau tan blwyddyn nesa. Bydd fishergerman yn hysbysu'r Cyngor Tref o'r amserlen a'r trefniadau yn ystod Mis Awst.
   Cynigiwyd bod Cyngor Tref Porthmadog yn gofyn i Glwb Chwareuon Madog os ydynt hwy angen yr offer chwarae ar ol iddynt gael eu cymeryd o'r safle.
   Bydd angen i'r Clerc drefnu bod cwmni G.L.Jones Bethesda yn gwneud archwiliad o'r offer chwarae ar y safle yn ystod Mis Awst.

4. **Bryn Coffa:**
   Roedd cais eisoes wedi dod at y Cyngor Tref gan drefnwyr Sul y Cofio a'r Lleng Brydeinig lleol

i ofyn i'r Cyngor Tref docio chydig ar y coed ar yr ynys fel bo'r groes yn weladwy o'r palmant yn y gwaelod. Mae'r Clerc wedi dechrau ar y broses o gael tri dyfynbris gan dorrwyr coed er mwyn sicrhau bod y coed ochr y lon i'r ynys yn cael eu tocio cyn Sul y Cofio. Deg mlynadd yn ol y gwnaethpwyd y gwaith yma o'r blaen. Bwriedir gwneud y gwaith yn ystod pythefnos cynta Mis Hydref.
Roedd trefnwyr Sul y Cofio hefyd wedi nodi bod rhai o'r pobl oedd yn mynychu'r digwyddiad yn cael trafferth i glywed y seremoni o'r gwaelod.
Mae'r Clerc am drafod y mater gyda'r trefnwyr ac am geisio cael ateb boddhaol i'r broblem.
Gofynwyd i'r cynghorwyr i ymweld a Bryn Coffa ddechrau'r mis maent yn gyfrifol amdano ar y rhestr glanhau er mwyn cael cysondeb.

5. **Llochesi Bws:**
Lloches Bws Steshon. Roedd difrod wedi digwydd i'r lloches bws yma nol yn Mis Mai. Bydd angen gwydr newydd yn y lloches. Y Clerc i barhau i edrych i fewn i'r posiblrwydd o gael arian yswiriant i dalu am y gwaith.

6. **Cerflun Mr Madocks:**
Dim i'w adrodd.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45

Elfyn Lewis (Clerc) 03/08/2025

*Elfyn Lewis (Clerc),39 Heol Fadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BU*

*Ffôn: 01766 514210*

*E-bost: clerccyngtreport@gmail.com*